# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 08/06/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Cysylltiadau Trafnidiaeth

**C11 Irene James:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella cysylltiadau trafnidiaeth yn y de-ddwyrain? OAQ(3)2911(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae'r cynlluniau ar gyfer gwella cysylltiadau trafnidiaeth yn y de-ddwyrain yn cael eu nodi yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Maent yn cynnwys gwella dibynadwyedd, ansawdd a diogelwch ein seilwaith trafnidiaeth, yn ogystal â gwella trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau cerdded a beicio.

### Gronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru

**C12 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gronfa ymddiriedolaeth plant Cymru? OAQ(3)2905(FM)

**Y Prif Weinidog:** Gwireddwyd ein hymrwymiad 'Cymru'n Un' i weithredu bond plant ychwanegol i bob plentyn sy'n dechrau yn yr ysgol drwy gyflwyno Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru yn hydref 2009. Yr ydym yn ystyried opsiynau ar gyfer dyfodol Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru yng ngoleuni penderfyniad diweddar Llywodraeth San Steffan.

### Digwyddiadau Chwaraeon Mawr

**C13 Trish Law:** Pa drafodaethau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cynnal gyda'r bwriad o sicrhau bod Cymru yn manteisio'n ariannol ar ddigwyddiadau chwaraeon mawr a gaiff eu cynnal mewn rhannau eraill o'r DU? OAQ(3)2906(FM)

**Y Prif Weinidog:** O ran Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012, yr ydym wedi creu strwythur a phroses gynllunio sydd â'r nod o sicrhau bod Cymru yn elwa cymaint â phosibl ar y gemau.

### 'Cymru'n Un'

**C14 Andrew R.T. Davies:** Pa gynnydd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud tuag at gyflawni ei hymrwymiadau 'Cymru'n Un'? OAQ(3)2919(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gwneud cynnydd da o ran gwireddu ein hymrwymiadau 'Cymru'n Un'. Mae ein llwyddiannau hyd yn hyn yn cynnwys gweddnewid y gwasanaeth iechyd gwladol ac ar yr un pryd lleihau amseroedd aros, cyflwyno'r cyfnod sylfaen a sefydlu fframwaith cyfreithiol newydd i ategu ein hymrwymiadau ar dlodi plant.

### Blaenoriaethau

**C15 Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol hon? OAQ(3)2913(FM)

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn parhau i wireddu ein hymrwymiadau 'Cymru'n Un' a'n rhaglen ddeddfwriaethol. Byddwn yn ceisio ennill mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol. Er y byddwn yn gweithio drwy benderfyniadau anodd ar wario, byddwn ar yr un pryd yn parhau i osod seiliau ar gyfer adferiad economaidd cynaliadwy.